YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

DYDD Iau, 16 Mai 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 10.10 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024, gan ei fod yn gywir.

3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Roedd gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gallai'r holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd, a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgol lle nad oedd lle gwag ac os oedd gormod o lywodraethwyr, byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol yr oedd yn ofynnol iddo roi'r gorau i'r swydd.

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi swyddi gwag ar Gyrff Llywodraethu :-

Ysgol Gynradd	Penodiadau
Bro Banw (1 swydd wag – 1 enwebiad)	Mr A. Thomas
Brynsierfel (1 swydd wag o 01.09.2024 – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Sharen Davies
Cae'r Felin 2 swydd wag 1 cyfredol ac 1 o 05.09.2024 – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Linda Davies Evans (o 05.09.2024)
Ysgol Gymraeg Rhydaman (1 swydd wag – 1 enwebiad)	Mrs H Garland
Hafodwenog (1 swydd wag – 1 enwebiad)	Mrs L. Evans
Llangadog (1 swydd wag – 1 enwebiad)	Mrs M Haines-Evans
Llanllwni (1 swydd wag o 05.09.24 – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Linda Davies Evans
Llys Hywel (1 swydd wag o 05.09.24 – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Sue Allen
Parc y Tywyn (2 swydd wag o 01.09.24 – 2 enwebiad)	Y Cynghorydd John James Y Cynghorydd Hugh Shepardson,
Pen-bre (1 swydd wag o 05.09.24 – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Hugh Shepardson,
Pentip (1 swydd wag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Steve Williams
Cwm Lliedi (1 swydd wag o 05.09.24 – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Giles Morgan
Teilo Sant (1 swydd wag – 1 enwebiad)	Mrs C. Davies
Y Bedol (2 swydd wag – 2 enwebiad)	Y Cynghorydd Kevin Madge (o 19.09.24) Mr D. Jenkins (o 05.09.24)

Ysgol Uwchradd	Penodiadau
Coedcae (1 swydd wag o 05.09.24 – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Louvain Roberts
Ysgol y Strade (3 swydd wag [1 cyfredol a 2 yn codi yn ystod Tymor yr Haf] – 2 enwebiad)	Y Cynghorydd Gareth Beynon Thomas (o 31.08.24) Y Cynghorydd M V Davies (o 17.07.24)

Ysgol Arbennig	Y Penodiad
Heol Goffa (1 swydd wag o 21.09.24 – 1 enwebiad)	Mrs H. Lewis

4. PENODI AELODAU I'R FFORWM DERBYNIADAU

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad yn manylu ar benodi Aelodau'r Fforwm Derbyniadau Addysg.

Yn unol â Pholisi Penodi Aelodau Fforwm Derbyniadau yr Awdurdod Lleol, mae gofyniad i adolygu aelodau craidd ac aelodau ysgolion y Fforwm bob 4 blynedd. Cynhaliwyd adolygiad aelodaeth llawn a chymeradwywyd yr enwebiadau'n ffurfiol ym mis Mai 2023.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelod Cabinet fod Pennaeth Ysgol Sant Ioan Llwyd wedi ymddeol o addysgu a'r Fforwm ar 4 Chwefror 2024 a gofynnwyd am enwebiadau gan holl Benaethiaid Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn Sir Gaerfyrddin ym mis Ebrill 2024 ac fe gafwyd un enwebiad.

Er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol o ran llenwi swyddi gwag ar y Fforwm Derbyniadau

PENDERFYNWYD penodi'r canlynol i'r Fforwm Derbyniadau Addysg, am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd:

<u>Cynrychiolwyr y Penaethiaid Ysgol: Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir:</u> Mrs Alison Howells (Ysgol Gynradd Gatholig Y Santes Fair, Llanelli)

_____ _____

AELOD O'R CABINET **DYDDIAD**